Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

Estyn
Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Gylch Meithrin Llansannan

**Ysgol Bro Aled**
**Llansannan**
**Conwy**
**LL16 5HN**

**Dyddiad yr arolygiad: Mehefin 2024**

**gan**

**Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)**

**a**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn â Chylch Meithrin Llansannan

| | |
|---|---|
| Enw'r lleoliad | Cylch Meithrin Llansannan |
| Categori'r gofal a ddarperir | Gofal Dydd Llawn |
| Person(au) cofrestredig | |
| Unigolyn cyfrifol (os yw'n berthnasol) | Gwenno Glyn a Kate Wright |
| Person â gofal | Eirian Roberts |
| Nifer y lleoedd | 19 |
| Amrediad oedran y plant | 2 oed i 4 oed |
| Nifer y plant 3 a 4 mlwydd oed | 6 |
| Nifer y plant sy'n cael eu hariannu ar gyfer addysg gynnar | 2 |
| Diwrnodau / amseroedd agor | Mae'r lleoliad ar agor yn ystod tymor ysgol yn unig o 9 y bore i 3 y prynhawn, dydd Llun, dydd Mawrth a dydd Iau a 12:30 y prynhawn i 3 y prynhawn, dydd Mercher a dydd Gwener. |
| Gwasanaeth Dechrau'n Deg | Nac oes |
| Iaith y lleoliad | Cymraeg |
| A yw'r Cynnig Gofal Plant ar gael yn y lleoliad hwn? | Ydy |
| Cynnig y Gymraeg yn Rhagweithiol | Mae hwn yn wasanaeth sy'n darparu 'Cynnig Gweithredol' y Gymraeg. Mae'n darparu gwasanaeth sy'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion y Gymraeg ac anghenion diwylliannol y plant sy'n defnyddio, neu a allai, ddefnyddio'r gwasanaeth. |
| Dyddiad arolygiad blaenorol AGC | 12 Chwefror 2020 |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn | Mehefin 2015 |
| Dyddiadau'r ymweliad(au) arolygu hwn/hyn | 24/06/2024 |
| Mae tua hanner y plant yn siarad Cymraeg ar yr aelwyd. | |

## Crynodeb

| Thema | Barn |
|---|---|
| **Lles** | **Da** |
| **Dysgu**<br>**(mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir)** | |
| **Gofal a datblygiad** | **Da** |
| **Addysgu ac asesu**<br>**(mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir)** | **Da** |
| **Yr amgylchedd** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Da** |

## Diffyg cydymffurfio

Ni chanfyddwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn.

## Argymhellion

A1 Defnyddio arsylwadau ac asesiadau yn fwy effeithiol i gynllunio'r camau nesaf yn nysgu plant unigol

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

**Lles: Da**

Mae bron bob plentyn yn hapus ac yn fodlon. Maent yn ymdopi'n dda wrth adael eu rhieni ac maent yn awyddus i chwarae gyda'u ffrindiau. Mae'r rhan fwyaf o blant yn hyderus i wneud penderfyniadau a dewis sut maent yn treulio eu hamser yn y lleoliad. Maent yn symud o gwmpas yr ardaloedd tu fewn a thu allan yn annibynnol ac yn dewis o'r ystod eang o weithgareddau yn hwylus. Mae hyn yn galluogi'r plant i ddilyn eu diddordebau ac i gymryd rhan mewn gweithgareddau strwythuredig yn eu hamser eu hunain yn llwyddiannus. Mae'r rhan fwyaf o blant yn mwynhau sgwrsio gyda'r ymarferwyr ac yn hapus i rannu eu diddordebau gyda nhw yn huawdl. Er enghraifft, maent yn dangos a thrafod cynnwys llyfrau yn ddeallus a siarad am y pethau maent yn mwynhau gwneud yn ystod tywydd braf.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn mynegi eu hunain yn effeithiol ac yn gwybod y bydd eu barnau'n cael eu parchu gan ymarferwyr. Er enghraifft, maent yn hyderus wrth ofyn am weithgareddau penodol a chynnig esboniadau synhwyrol am eu hoff ffrwythau. Mae bron bob plentyn yn gyfarwydd â'r drefn ddyddiol ac mae ganddynt berthynas gadarnhaol â'r ymarferwyr, sy'n rhoi teimlad o sicrwydd iddynt. Maent yn ymateb yn dda i ganmoliaeth, sy'n creu naws ac awydd o rannu eu llwyddiannau'n eglur. Er enghraifft, maent yn dangos eu gwaith celf yn ystyrlon i'w gilydd ac yn esbonio'n glir sut maent yn creu patrymau gyda phaent, cnau castan a phlu. Maent yn gwenu'n fodlon wrth i'r ymarferwyr wrando arnynt yn astud a holi mwy o gwestiynau iddynt am eu hymdrechion.

Mae’r rhan fwyaf o blant yn dechrau gwneud ffrindiau gyda’i gilydd dan ddylanwad ystyrlon yr ymarferwyr. Maent yn rhyngweithio’n dda â’u cyfoedion ac yn mwynhau chwarae a chwblhau tasgau ar y cyd. Er enghraifft, maent yn cydweithio’n llwyddiannus y tu allan wrth greu trên gan ddefnyddio seddau a llyw ac yn creu llwybr antur gyda blociau, trawst a phlanciau pren. Mae’r rhan fwyaf o blant yn hapus i rannu adnoddau â’u cyfoedion ac yn dysgu medrau cymdeithasol pwysig fel cymryd eu tro. Er enghraifft, maent yn bwyllog ac yn cefnogi ei gilydd tra’n aros i gerdded ar hyd y trawst. Maent yn gwylio eu ffrindiau’n ofalus ac yn eu cymeradwyo am lwyddo i gydbwyso’n llwyddiannus.

Mae bron bob plentyn yn mwynhau eu chwarae a’u dysgu. Maent yn canolbwyntio a dyfalbarhau’n dda wrth fynd i’r afael â thasgau ac yn mwynhau arbrofi gydag offer a deunyddiau gwahanol. Er enghraifft, maent yn chwilota yn y pridd a’r pren am drychfilod a threfnu deinosoriaid yn ôl maint yn yr ardal dywod. Mae bron bob plentyn yn chwilfrydig am y byd o’u cwmpas ac yn mwynhau chwarae a defnyddio eu dychymyg. Er enghraifft, mae’r plant yn gofalu am anifeiliaid wrth chwarae rôl yn y filfeddygfa gan sgwrsio am eu triniaethau’n frwdfrydig.

Mae’r rhan fwyaf o blant yn dewis gweithgareddau’n annibynnol ac yn dilyn eu diddordebau’n bwrpasol. Maent yn datblygu medrau annibynnol da, er enghraifft wrth roi eu henwau yn y blwch hunangofrestru ac wrth arllwys eu diodydd yn ystod amser byrbryd. Mae’r rhan fwyaf o blant yn dyfalbarhau’n dda wrth geisio cwblhau tasgau drostynt eu hunain, fel cario poteli dŵr o un man i’r llall ac arllwys y dŵr i lawr y cafnau i flwch arall tra’n chwarae tu allan.

**Dysgu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir):**

Nid oes adroddiad ar ddysgu plant. Mae hyn oherwydd nad oedd digon o blant tair neu bedair oed yn bresennol ar adeg yr arolygiad, nad ydynt yn derbyn addysg a ariennir rywle arall, y gellid adrodd arnynt heb adnabod plant unigol.

**Gofal a datblygiad: Da**

Mae ymarferwyr yn blaenoriaethu diogelwch plant ac yn cynnal gweithdrefnau effeithiol i sicrhau bod plant yn iach a diogel. Mae pob un ohonynt wedi cael hyfforddiant amddiffyn plant ac yn hyderus am y gweithdrefnau cywir i’w dilyn pe byddai ganddynt unrhyw bryderon am blentyn. Mae trefniadau’r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder. Mae bob un o’r ymarferwyr wedi cwblhau hyfforddiant cymorth cyntaf pediatrig, sy’n eu galluogi i ddarparu triniaeth briodol, pe byddai angen. Maent yn cofnodi unrhyw ddamweiniau’n fanwl, gan sicrhau bod rhieni’n arwyddo’r cofnodion yn amserol. Mae ymarferion tân yn cael eu cwblhau'n rheolaidd a'u cofnodi'n drylwyr.

Gwneir defnydd da o weithdrefnau pwrpasol er mwyn atal lledaenu haint. Er enghraifft, mae ymarferwyr yn annog y plant i olchi eu dwylo’n rheolaidd, yn glanhau’r byrddau cyn amseroedd bwyd ac yn dilyn gweithdrefnau effeithiol wrth newid cewynnau. Mae ymarferwyr yn hyrwyddo bwyta’n iach ac ymarfer corff yn llwyddiannus. Maent yn annog plant i fwyta ffrwythau amrywiol, fel mango a

grawnwin, ac yn sicrhau bod cyfleoedd cyson a buddiol iddynt ddatblygu eu medrau corfforol a threulio amser tu allan yn yr awyr iach.

Mae’r holl ymarferwyr wedi ffurfio perthnasoedd cadarnhaol â’r plant ac yn siarad â nhw’n dyner a chlên a’u trin gyda gofal a pharch. Mae pob ymarferydd yn defnyddio strategaethau effeithiol a chyson i hybu ymddygiad positif yn unol â pholisi'r lleoliad. Er enghraifft, maent yn denu sylw plant at weithgaredd arall os ydynt yn cael trafferthion wrth rannu neu gymryd tro ac yn esbonio’n glir pan nad yw eu hymddygiad yn dderbyniol. Mae'r holl ymarferwyr yn modelu medrau cymdeithasol yn effeithiol wrth chwarae ochr yn ochr â’r plant ac yn eu canmol yn gyson.

Mae gan y lleoliad drefniadau effeithiol er mwyn adnabod a chefnogi anghenion unigol plant, gan gynnwys plant ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae ymarferwyr yn casglu digon o wybodaeth am hoffterau’r plant, eu hanghenion ac unrhyw wybodaeth berthnasol arall cyn iddynt gychwyn mynychu'r lleoliad. Mae hyn yn eu galluogi i gynllunio'n effeithiol ar gyfer anghenion unigolion, pan fo angen. Mae gweithdrefnau cadarn ar waith i sicrhau bod ymarferwyr yn medru gweithio’n llwyddiannus ag asiantaethau allanol os oes angen trefnu unrhyw gymorth ychwanegol. Rhennir gwybodaeth yn gyson drwy dudalen gaeëdig ar gyfryngau cymdeithasol a thrwy negeseuon preifat. Mae hyn yn sicrhau bod rhieni’n derbyn gwybodaeth gyfredol am ddatblygiad eu plant yn effeithiol.

**Addysgu ac asesu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir): Da**

Mae dulliau addysgu brwdfrydig yr ymarferwyr yn sbarduno’r plant i gydweithio a dysgu’n llwyddiannus ac yn cael effaith bwrpasol ar eu dysgu a’u medrau. Mae ymarferwyr yn darparu profiadau dysgu a chwarae ystyrlon, sy'n galluogi'r plant i fentro a datblygu eu gwybodaeth a’u dealltwriaeth yn dda. Er enghraifft, maent yn herio’r plant i drefnu cacennau yn ôl rhifau a lliwiau a choginio gyda pherlysiau, tra’n chwarae rôl, yn y gegin fwd.

Mae ymarferwyr yn ymyrryd yn ddoeth yn ystod gweithgareddau, gan annog y plant yn synhwyrol i arbrofi wrth chwarae. O ganlyniad, mae’r plant yn arbrofi’n annibynnol wrth gymharu nodweddion pryfed gwahanol gyda chwyddwydrau ac wrth adeiladu ceir gyda chratiau ac olwynion. Maent yn cynnal trafodaethau difyr â'r plant wrth iddynt chwarae. O ganlyniad, mae’r rhan fwyaf o blant yn datblygu eu medrau cymdeithasol yn effeithiol. Er enghraifft, mae’r ymarferwyr yn cymell plant i rifo blodau yn ‘Siop Flodau’r Llan’ a defnyddio sialc ar y cyd i greu marciau ar fyrddau du ac ar y buarth.

Mae ymarferwyr yn gweithredu cwricwlwm eang a chytbwys. Maent yn ymateb yn fuddiol i diddordebau’r plant, er enghraifft wrth sefydlu ardal ar gyfer dinosoriaid. Maent yn addasu eu cynllunio’n synhwyrol i sicrhau bod y plant yn dysgu trwy amrywiaeth o heriau ymarferol, fel arbrofi gyda phaent a dewis lliwiau’n annibynnol cyn iddynt beintio llun ieir.

Mae ymarferwyr yn cynllunio cyfleoedd diddorol i ddatblygu medrau llythrennedd y plant ac maent yn eu holi’n dda wrth iddynt chwarae. Gwneir hyn, er enghraifft, trwy

roi cyfleoedd i'r plant drafod storïau am fywyd lindysyn ac wrth iddynt greu marciau ar lechi golau yn yr ardaloedd ysgrifennu cynnar. Mae'r ymarferwyr yn datblygu medrau rhifedd a digidol effeithiol ymysg y plant. Maent yn eu herio i bwyso anifeiliaid ar glorian yn y filfeddygfa chwarae rôl a defnyddio teganau rhaglenadwy i symud o un siâp i'r llall ar drac sgwâr.

Mae ymarferwyr yn defnyddio'u harsylwadau ar gyflawniadau'r plant yn foddhaol, ac mae hyn yn dechrau arwain at gynllunio'r camau nesaf yn nysgu plant unigol yn briodol. Fodd bynnag, nid yw'r ymarferwyr yn defnyddio'r wybodaeth yn ddigon effeithiol i dargedu'r camau nesaf yn natblygiad medrau'r plant. Mae'r ymarferwyr yn darparu gwybodaeth fuddiol i rieni a gofalwyr am gyflawniadau eu plant ar lafar, mewn llyfrynnau cynnydd ac ar gyfryngau cymdeithasol diogel.

Mae ymarferwyr yn datblygu medrau corfforol y plant yn llwyddiannus. Maent yn eu hannog i gicio peli i'w gilydd a gyrru beiciau o gwmpas yr ardal allanol. Yn ogystal, maent yn darparu gweithgareddau creadigol buddiol, fel cefnogi'r plant i ddarlunio anifeiliaid y jyngl yn y tŷ bach twt.

Mae ymarferwyr yn datblygu medrau ysbrydol, moesol a chymdeithasol y plant yn effeithiol. Maent yn hyrwyddo diwylliant Cymru yn dda, fel astudio hanes Santes Dwynwen a dathlu Dydd Gŵyl Dewi. Yn ogystal, maent yn astudio amrywiaeth yn ddeallus. Maent yn darparu cyfleoedd diddorol i blant ddysgu am y Flwyddyn Newydd Tsieineaidd a Diwali, a thrafod llyfrau sy'n ymwneud ag amrywiaethau pobloedd gwahanol y byd.

**Yr amgylchedd: Da**

Mae arweinwyr yn blaenoriaethu diogelwch plant trwy ddarparu gweithdrefnau sy'n sicrhau bod unrhyw beryglon posibl yn cael eu monitro a'u rheoli'n effeithiol. Mae asesiadau risg trylwyr yn amlinellu peryglon posib a'r camau sydd wedi eu cymryd i leihau neu atal y risg i blant. Mae gwiriadau o'r ardaloedd chwarae a'r offer yn cael eu cwblhau'n ddyddiol er mwyn sicrhau nad oes unrhyw beryglon yn bresennol a bod yr offer yn addas ar gyfer y plant. Pan mae unrhyw beryglon yn cael eu canfod, mae ymarferwyr yn delio â'r rhain yn gyflym ac yn effeithiol. Er enghraifft, maent yn tacluso'r lloriau'n aml i leihau risg llithro.

Mae'r ardaloedd chwarae yn braf, cyfforddus a chysurus ac mae digon o le i blant symud o gwmpas yn rhwydd. Mae arweinwyr yn sicrhau bod plant yn cael synnwyr o berthyn trwy arddangos esiamplau o waith y plant a ffotograffau ar y waliau. Mae'r ystafell chwarae wedi ei threfnu'n effeithiol i hybu datblygiad y plant ac i gynnig profiadau chwarae cyfoethog. Mae amrywiaeth o ddeunyddiau ac adnoddau naturiol ar gael sy'n hybu dealltwriaeth y plant o fywyd go iawn. Er enghraifft, mae llestri te a thebot yn yr ardal chwarae dŵr ac mae cyfrifiadur, ffôn, pacedi bwyd a photeli ar waith yn yr ardal chwarae rôl.

Mae'r ardal chwarae tu allan yn cynnig amrywiaeth o weithgareddau a chyfleoedd cyffrous i blant chwarae a datblygu eu hymwybyddiaeth o'r byd o'u cwmpas. Er enghraifft, mae cegin fwd ag amrywiaeth o berlysiau yn gwbl weithredol yn ddyddiol, ac mae'r plant yn chwarae'n frwd tra'n defnyddio tractorau, cerrig mân a phridd yn yr

ardal byd bach. Yn ogystal, mae arweinwyr yn sicrhau bod digonedd o gyfleoedd i blant ddatblygu eu medrau corfforol a chymryd risgiau derbyniol. Er enghraifft, mae arweinwyr yn darparu cratiau a blociau pren i annog y plant i yrru'r beiciau cydbwyso'n hyderus.

Mae arweinwyr yn sicrhau bod ystod eang o adnoddau ac offer diddorol a chyffrous ar gael yn yr ystafell chwarae. Mae'r rhain o ansawdd da ac yn cael eu storio ar lefel isel er mwyn galluogi'r plant i ddewis yn annibynnol heb ymyrraeth oedolyn. Mae'r ardaloedd chwarae a'r offer yn cael eu glanhau'n rheolaidd ac mae'r adnoddau'n lân ac mewn cyflwr da. Mae arweinwyr yn sicrhau bod offer ac adnoddau yn hybu annibyniaeth y plant; er enghraifft, mae adnoddau ar gael i helpu'r plant i ddysgu sut i ddefnyddio'r toiled yn annibynnol. Mae dewis o adnoddau ar gael er mwyn hybu ymwybyddiaeth y plant o amrywiaeth ac o ddiwylliannau gwahanol, gan gynnwys amrywiaeth dda o lyfrau, doliau a jig-sôs. Mae hyn yn helpu'r plant i ddatblygu'n ddinasyddion goddefgar ac i ddeall bod gwahaniaethau yn perthyn i'r byd o'u cwmpas.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth: Da**

Mae gan arweinwyr weledigaeth glir ac maent yn cydweithio'n bwrpasol i hybu'r gofal a chefnogi dysgu'r plant. Maent yn canolbwyntio'n effeithiol ar ddatblygu'r ddarpariaeth a hyrwyddo medrau a lles y plant yn eu gofal. O ganlyniad, mae eu harferion rheolaidd a'u hagweddau cadarnhaol yn creu amgylchedd ysgogol a darparu profiadau difyr i'r plant, tu mewn a thu allan i'r adeilad.

Mae arweinwyr yn darparu gofal tyner a bugeiliol i'r plant, sy'n creu ymdeimlad clòs o berthyn. Mae'r awyrgylch ofalgar hon yn cymell y plant i wneud eu gorau a dyfalbarhau wrth chwarae a dysgu. Yn ogystal, mae arweinwyr yn cynnal trafodaethau rheolaidd â'r rhieni a'r gofalwyr am ddatblygiad eu plant. Defnyddiant gyfryngau cymdeithasol diogel yn ystyrlon i ddarparu gwybodaeth berthnasol iddynt am gyflawniadau eu plant.

Mae arweinwyr yn cydweithio'n gydwybodol fel tîm ac yn mynychu hyfforddiant defnyddiol i wella'u haddysgu a'u systemau gofal. O ganlyniad, mae'r ymarferwyr a'r arweinwyr yn daer i wella'u harferion ac yn awyddus i lwyddo. Mae arweinwyr yn sicrhau bod dogfennau statudol, polisïau ac arferion y lleoliad yn cael eu hadnewyddu'n flynyddol. Maent yn sicrhau bod y prosesau ar gyfer goruchwylio, gwerthuso ac arfarnu gwaith a datblygiad yr holl ymarferwyr yn drwyadl.

Mae arweinwyr yn canolbwyntio'n dda ar gyflwyno gwelliannau cyson er mwyn datblygu arferion y lleoliad ymhellach. Maent yn cynnal gweithdrefnau hunanwerthuso trwyadl, sy'n arwain at dargedau defnyddiol ar gyfer gwelliant. O ganlyniad, maent yn adnabod cryfderau'r lleoliad a'r materion sydd angen sylw yn dda. Er enghraifft, yn ddiweddar, mae arweinwyr wedi canolbwyntio'n fuddiol ar gynllunio gweithgareddau a chanllawiau i fireinio a chyfoethogi cwricwlwm y lleoliad.

Mae arweinwyr yn sicrhau ystyriaeth lawn i farn pawb sy'n ymwneud â'r lleoliad. Maent yn cynnal trafodaethau buddiol â'r holl randdeiliaid i wella'r ddarpariaeth a phrofiadau'r plant, fel awgrymiadau swyddogion yr asiantaethau cefnogi. O

ganlyniad, maent yn llwyddo i ddarparu profiadau gwahanol i blant i ddatblygu eu medrau ymhellach yn yr ardaloedd ymchwiliol, fel tyfu llysiau a blodau haul a chreu gwestai i bryfed.

Mae gan yr arweinwyr berthynas lwyddiannus â'r ysgol. Mae hyn yn paratoi'r plant ar gyfer y cam nesaf yn eu haddysg yn fwriadus ac maent yn rhannu'r safle yn synhwyrol. Mae'r arweinwyr a'r ymarferwyr yn datblygu ymwybyddiaeth y plant o'u cynefin yn dda, ac maent yn defnyddio'r ardal gyfagos yn bwrpasol. Er enghraifft, mae'r ymarferwyr a'r plant yn ymweld â'r parc a siop y pentref ac yn gwahodd swyddogion o'r gwasanaethau brys i'r lleoliad i gyfoethogi dysgu'r plant.

Mae arweinwyr yn dilyn prosesau recriwtio diogel ac yn dyrannu adnoddau'n dda. Maent yn defnyddio'r gyllideb yn ofalus ac yn blaenoriaethu gwariant yn erbyn targedau'r lleoliad yn ddoeth. Yn ogystal, maent yn cyllido adnoddau amrywiol yn ddeallus, fel caledwedd a theganau digidol, canopi yn yr ardal dawel a chyfarpar newydd yn yr ardaloedd allanol.

## Copïau o’r adroddiad

Mae copïau o’r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan AGC ac Estyn (http://careinspectorate.wales) (www.estyn.llyw.cymru)

Mae AGC ac Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig y mae angen eu gwella’n sylweddol |
| **Digonol** | Cryfderau yn gorbwyso gwendidau ond mae angen gwelliannau |
| **Gwael** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau ac mae angen gwelliannau sylweddol |

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Cymraeg i Saesneg).**

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2024: Gellir ailddefnyddio’r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio’n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 27/08/2024

| Crynodeb o'r achos o ddiffyg cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb ei Chyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i ddiffyg cydymffurfiaeth â'r rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a / neu risg i'w llesiant eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Mae'n rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i fynd i'r afael â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf.

| Maes i'w Wella / Meysydd I’w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad | Dd/G |

| Graddau | Ystyr y graddau |
|---|---|
| **Rhagorol** | Gwasanaethau sy'n ymrwymedig i welliant parhaus ac sydd â llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer ac arloesi sy'n arwain y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel a gallant ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad cadarn tuag at wella llesiant plant. |
| **Da** | Gwasanaethau sydd â chryfderau a heb unrhyw feysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant a hybu eu llesiant yn rhagweithiol. |
| **Digonol** | Gwasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i'w gwella. Maent yn ddiogel ac yn bodloni'r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hyrwyddo llesiant a gwella canlyniadau i blant. |
| **Gwael** | Gwasanaethau lle mae mwy o feysydd pwysig i'w gwella na chryfderau ac mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n effeithio'n negyddol ar lesiant plant. Lle bydd gwasanaethau yn wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn cyflwyno hysbysiad diffyg cydymffurfio. |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall p'un a yw ein hadroddiadau yn darparu gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, cliciwch ar y ddolen ganlynol i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiad arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol am wasanaeth, ewch i'n Tudalen arolygon adborth

**Dyddiad Cyhoeddi** 27/08/2024